

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau 16ain o Orffennaf 2020 am 7pm.

Cyfarfod Blynyddol

Agenda

Gweddi a gair o groeso

Cod Ymddygiad

Ymddiheuriadau

Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 23ain 2019

Derbyn Mantolen Ariannol am y flwyddyn 2019/2020

Adroddiad y Cadeirydd

Cadarnhau/Ethol Swyddogion:

Cadeirydd

Is Gadeirydd

Ethol Cynrychiolwyr ar yr Is Bwyllgor

Dilynir yn syth gan gyfarfod o'r Cyngor.

CYNGOR CYMUNED PENTIR

CYFARFOD BLYNYDDOL COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 23/05/2019 yn Eglwys Sant Pedr Penrhosgarnedd

Presennol:

Cyng Cynrig E. Hughes (Cadeirydd)

Cyng Dewi Jones, James Griffiths, Lowri James, Tudur Anwyl, Huw Griffiths a Menna Baines

Elwyn Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Cyng Dafydd Jones Morris, Jean Pierce, Bernard Jones, a Modlen Lynch

Traddodwyd Gweddi gan y Cadeirydd Cyng C. E. Hughes

Yn ei sylwadau agoriadol ymddiheurwyd fod y Cyfarfod Blynyddol wedi mynd ymhellach i Mis Mai na'r disgwyl oherwydd na fyddai aelodau ar gael yr y 9fed a chanolfan Glasinfryn ddim ar gael i'w chynnal heno oherwydd Etholiadau Ewrop

1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol gynhaliwyd 10fed o Fai 2018 a materion yn codi.

Derbyn Cofnodion

Ar gynnig Cyng J Griffiths gafodd ei eilio gan Cyng M Baines derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2018-19

Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2018-19 ynghyd a'r adroddiad ariannol.

'Roedd popeth bellach yn barod i'w cyflwyno i'r archwiliwyr mewnnol (Cyngor Gwynedd) fel y gallwn os yn bosib dderbyn a chymerawyo eu adroddiad nhw yng nghyfarfod Mehefin a'i anfon ymlaen i BDO

3. Adroddiad y Cadeirydd

Diolchodd i bawb am eu cyfraniad dros y flwyddyn ag yn arbennig i'r Is-Bwyllgor Cyllid am sicrhau fod y Cyngor wastad mewn lle diogel yn ariannol. Diolchodd i'r Clerc am ei waith di-flino ar ran y cynghorwyr ag am fod ar gael i drafod ag ymateb i unrhyw fater sy'n codi yn achlysurol.

Yn ystod y flwyddyn croesawyd Cyng M Lynch atom ond erbyn diwedd y flwyddyn gadawodd Cyng R T Jones y Cyngor.

Diflanodd gwmwl du mwy o Beilonnau yn yr ardal oherwydd atal adeiladu Wylfa Newydd

Gwaith y Cyngor

Yn anffodus diddymwyd yr Is-Bwyllgor Asedau – oherwydd diffyg presenoldeb – ond oedd hefo rôl i adnabod prosiectau a'i prasio cyn eu cyflwyno i'r Is-Bwyllgor Cyllid

Serch hynny mae prosiectau yn digwydd a/neu wedi gorfod digwydd

1. Llwybrau y Fynwent
2. Wal/pilar giat y Fynwent
3. Cyfrifoldeb Biniâu Halen wedi ei rhaeadu lawr i ni o Cyngor Gwynedd
4. Adnabod lleoliadau ar gyfer prynu a gosod peiriannau Diffib o amgylch ardal y Cyngor
5. Bod yn rhan o brosiect Ysgol Y Faenol/Canolfan Gymunedol Penrhos.

Dyfodol

Gweithredu yn ofalus er mwyn gwneud y gorau i'r Gymuned

1. Sicrhau bod trafodaethau hefo Cyngor Gwynedd i wireddu dymuniadau'r Cyngor Cymuned
2. Cyd-drafod gyda Pwyllgor Canolfan Penrhos ar faterion rheolaethol ag ariannol Prosiect Ysgol Y Faenol a chyd-weithio hefo Cadeirydd y Ganolfan
3. Llunio gweithdrefn fel bod y Cyngor yn gallu monitro a chefnogi Pwyllgorau y ddwy Ganolfan Gymunedol gan geisio sicrhau elfannau o unffurfiaeth
4. Dod i benderfyniad ynglyn a'r angen neu beidio cael Is-Bwyllgor arall
5. Sicrhau bod bob rhan o'r gymuned yn gweld gwerthgwaith Cyngor Cymuned Pentir

4. Ethol Swyddogion

4.1 – Ethol Cadeirydd

Yn sgil y ffaith fod Is-Gadeirydd y Cyngor wedi ein gadael cynnigiodd y Cyng D W Jones i ofyn yn garedig i'r Cadeirydd ystyried parhau yn y gadair am flwyddyn ychwanegol.

Eilwyd y Cynnig gan Cyng J Griffiths.

Nid oedd cynnig arall a cytunodd y Cyng C E Hughes i barhau yn y swydd am flwyddyn arall

4.2 – Ethol Is-Gadeirydd

Gan fod y mwyafrif oedd yn bresennol eisioes wedi traelio tymor yn y gadair cytunwyd gohirio ethol Is-Gadeirydd tan ddechrau cyfarfod Mis Mehefin

4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau

Cytuniwyd i aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid aros fel ag y mae sef Cyng Lowri James (Cad) Cyng Dewi W Jones, Cyng Dafydd Jones-Morris Cyng Jean Pierce a'r Cyng Bernard Jones.

Byddai'r Cadeirydd yn mynychu yr Is-Bwyllgor

Daeth y Cyfarfod Blyneddol i ben am 7.30
